



Cofnodion y Cyngor

Cyfarfod 183

Dyddiad y cyfarfod	Gwener 4 Medi 2020
Lleoliad	Cyfarfod drwy Sŵm
Presennol (drwy Sŵm)	Phil George, Cadeirydd (PG), Andrew Miller (AM), Gwennan Mair (GM), Devinda De Silva (DDS), Mike Griffiths (MG), Kate Eden (KE), Alison Mears Esswood (AMS), Tudur Hallam (TH), Sarah Younan (SY), Dafydd Rhys (DRh), Marian Wyn Jones (MWJ), Andy Eagle (AE) a Victoria Provis (VP)
Yno (drwy Sŵm)	Nick Capaldi (NC), Diane Hebb (DH), Siân Tomos (ST), Rebecca Nelson (RN), Siôn Brynach (SB), Andrew Richards (AR), Eluned Haf (EH) a Katy Brown (cofnodion)
Ymddiheuriadau	Iwan Bala (IB) a Lhosa Daly (LD)
Arsylwi (drwy Sŵm)	Gary Williams, Llywodraeth Cymru (GW)
Cyfieithydd	Lowri Gwyn (LG)
Statws y papur	I'w ryddhau i'r cyhoedd
Eitem	Gweithred
1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i gyfarfod Cyngor Celfyddydau Cymru drwy Sŵm.	
2. Datgan Buddiannau Gofynnodd aelodau o'r Cyngor am gofnodi'r Datganiadau o Fuddiant (wedi'u hatodi i'r cofnodion hyn). Gofynnodd AM am gofnodi'r canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • We Shall Not Be Removed (sylfaenydd) • Gŵyl Ymylol Caeredin • Cynyrchiadau Sonia Friedman • Opera Tête-a-Tête • AD:Vantage • Heb Ffiniau, Celfyddydau Siâp 	

	<p>Gofynnodd hefyd am ddileu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymdeithas Technegwyr Theatr Prydain 	
3.	<p>Cofnodion y cyfarfod ar 3 Awst 2020 Cymeradwywyd y cofnodion yn rhai cywir.</p>	
4.	<p>Materion sy'n codi Roedd yr holl faterion a oedd yn weddill wedi'u cyflawni.</p>	
5.1	<p>Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar 20 Gorffennaf 2020 Rhoddodd KE drosolwg o'r drafodaeth.</p> <p><u>Cyflwyno System Rheoli Grantiau Electronig</u> Roedd swyddogion wedi rhoi cyflwyniad i'r pwyllgor am y broses o bennu, caffael a datblygu System Rheoli Grantiau newydd. Mae'n brosiect allweddol sy'n hanfodol i'n busnes a bydd rhagor o newyddion am hyn yng nghyfarfod mis Medi.</p> <p><u>Adroddiad Ymgynghorol Cydweithwyr Celfyddydol</u> Derbyniwyd adroddiad ymgynghorol yr archwilwyr mewnol. Roedd KE yn hapus i'w ddsbarthu ymhlith aelodau o'r Cyngor.</p> <p><u>Cronfa Wytchwch y Celfyddydau</u> Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am adolygiad archwilio mewnol o'n rheolaeth o Gronfa Wytchwch y Celfyddydau er mwyn nodi unrhyw wersi posibl o ran archwilio a meysydd i'w gwella.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
5.2	<p>Cyfarfod Grŵp Monitro'r Gymraeg ar 22 Gorffennaf 2020 Rhoddodd MWJ drosolwg o'r drafodaeth.</p> <p>Prif ffocws y cyfarfod oedd adroddiad mapio'r Gymraeg a oedd wedi'i lunio cyn y coronafeirws. (Bydd hyn yn cael ei drafod yn fanylach yn nes ymlaen ar yr agenda.)</p> <p><u>Mesur y Gymraeg – Safon 90</u> Roedd SB wedi sôn am y gwaith a wnaed. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cadarnhau bod gofynion y Safon bellach wedi'u bodloni.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
6.1	<p>Adroddiad y Cadeirydd</p>	

Soniodd y Cadeirydd am y digwyddiadau a chyfarfodydd diweddar y bu ynddynt.

Cwrdd ag artistiaid duon

Nododd PG fod y cyfarfod wedi bod yn onest a heriol ond yn ddefnyddiol iawn. Roedd nodyn SY o'r cyfarfod yn crynhoi syniadau ac awgrymiadau cyfranogwyr o ran beth i'w wneud yn y dyfodol. Bydd y rhain yn llywio cam nesaf gwaith y Cyngor.

Diolchodd AM i SY a DDS am arwain y sgysiau gyda'r artistiaid duon. Ar yr adeg gywir hoffai i'r Cyngor ehangach fod yn rhan o'r drafodaeth. Ategodd AE y dymuniad.

Nododd SY mai'r cam nesaf fydd cynnwys pobl liw sy'n greadigol ac agor y drafodaeth yn ehangach, i gynnwys artistiaid Cymraeg ac anabl hefyd.

Côr Sŵm

Clywodd PG Gôr Celf ar y Blaen yn canu gyda Chôr y Gymdeithas Strôc. Roedd y sesiwn yn bleserus iawn ac yn gyfle i siarad â'r Gymdeithas Strôc am ein rhaglen, y Celfyddydau ac Iechyd.

Cyfweliad ar y BBC

Roedd yr *Arts Show*, BBC Radio Wales, wedi cyfweld â PG:
<https://www.bbc.co.uk/sounds/play/m000m0wv>

Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Gerddoriaeth

Aeth PG i'r cyfarfod dan gadeiryddiaeth Rhiannon Passmore AC. Trafodwyd yr adroddiad 'Land and Song' gan Carl Carr am y ddarpariaeth gerddorol. Soniodd PG am bwysigrwydd cerddoriaeth gymunedol, corau a bandiau.

Cynllun Comisiynydd Lles Cenedlaethau'r Dyfodol

Cytunodd PG i gymryd rhan mewn cynllun "mentro o chwith" gan y Comisiynydd, lle mae rheolwyr iau yn mynd yn fentoriaid i unigolion mewn swyddi o bŵer a dylanwad.

6.2 Cyfrifon Blynyddol ar gyfer Gweithgareddau Cyffredinol 2019/20

6.3 Cyfrifon Blynyddol ar gyfer Dosbarthu'r Loteri 2019/20

6.4 Adroddiad ISA 260

Cyflwynodd RN y cyfrifon a nododd argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'r Cyngor eu llofnodi.

Nododd KE mai ychydig iawn oedd gan aelodau'r Pwyllgor i'w ddweud yn ychwanegol. Diolchodd i RN a'r tîm am safon y cyfrifon. Byddai'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn llofnodi'r

<p>cyfrifon a fydd yn cael eu cyflwyno a'u gosod gerbron y Senedd a Senedd Prydain.</p> <p>Canmolodd VP y tîm hefyd ar set glir a darllenadwy o ddogfennau. Roedd ganddi ddiddordeb arbennig yng nghyfraeddiadau'r rhaglen Dysgu Creadigol. Gofynnodd a oedd dosbarthiad daearyddol digon da o ran yr ysgolion. Roedd DH yn hapus i gadarnhau bod hyn yn wir. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.</p> <p>Gofynnodd MWJ a oedd fideos hyrwyddo ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cadarnhaodd DH fod hyn yn wir.</p> <p>Penderfynwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cymeradwyo'r Cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol a Dosbarthu'r Loteri 2. Nodi adroddiad ISA 260 	<p>DH</p>
<p>7. Cyfrifon Rheoli – Gorffennaf 2020</p> <p>Cyflwynodd RN yr adroddiad a roddodd drosolwg ar lefel uchel o incwm a gwariant y Cyngor hyd at ddiwedd Gorffennaf 2020. Tynnodd sylw at faterion i'w trafod a'u gweithredu.</p> <p>Cadarnhaodd PG y byddai tanwariant arian y Loteri Genedlaethol yng nghronfa Wytwnch y Coronafeirws yn parhau i aros yng nghyllidebau'r Loteri Genedlaethol i'w ddefnyddio'n ddiweddarach yn y flwyddyn.</p> <p>Nodwyd y sefyllfa ariannol yn ôl yr adroddiad.</p>	
<p>8. Adroddiad y Prif Weithredwr</p> <p><u>Llywodraeth Cymru – lansio'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol</u></p> <p>Nododd NC y bydd Llywodraeth Cymru yn lansio ei helfennau o'r gronfa ar 16 Medi.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
<p>9. Diweddariad am y coronafeirws</p> <p>Soniodd NC am y gwaith sydd ar y gweill i reoli goblygiadau a chanlyniadau'r argyfwng gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lansio'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol • cynorthwyo Llywodraeth Cymru i lunio canllawiau am aildechrau gwaith gyda'r celfyddydau perfformio • datblygu cynigion ar gyfer arian y Loteri Genedlaethol • gosod y sail ar gyfer y protocolau a'r polisiau i gefnogi ailfeddiannu swyddfeydd y Cyngor 	

Esboniodd fod y gwaith yn mynd rhagddo'n gyflym ar ailagor rhaglen ariannu gychwynnol y Loteri Genedlaethol y mis nesaf (gyda rhaglenni pellach yn dilyn yn ystod y flwyddyn). Bydd y gronfa yn cael ei datblygu ar hyn o bryd i annog gweithgarwch a chydweithio rhwng sefydliadau ac unigolion wrth i gynlluniau symud ymlaen i ailddechrau gwaith cyhoeddus.

Roedd yr aelodau'n ategu bod angen cymorth o'r fath, yn enwedig ar y sefydliadau a'r unigolion nad allent ymgeisio i'r Gronfa Adfer Ddiwylliannol. Cydnabu'r NC y broblem. Ond nododd pa mor bwysig oedd sicrhau na ddylai unrhyw raglen Loteri Genedlaethol o'n heiddo ddyblygu'r cynigion a ddatblygir gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor ar gyfer y Gronfa Adfer Ddiwylliannol bresennol.

Nodwyd yr adroddiad.

10. Polisi

10.1 Yr Adolygiad Buddsoddi

Yn gynharach yn y flwyddyn penderfynodd y Cyngor, yng ngoleuni dechrau'r pandemig, ohirio ein Hadolygiad Buddsoddi arfaethedig.

Trafodwyd gwahanol opsiynau. Daethpwyd i'r casgliad y byddai angen Adolygiad Buddsoddi o hyd, ond pryd (a beth fyddai ei gynnwys) oedd yn fater i'w ystyried yn ofalus.

Nid oedd yn glir o hyd sut y byddai'r pandemig yn esblygu. Nodwyd bod awydd cyffredinol i ailddechrau gwaith hygyrch i'r cyhoedd. Ond mae pryderon am ddiogelwch ac ymbellhau cymdeithasol yn parhau. Bydd llawer o sefydliadau hefyd yn poeni o hyd am sut i oroesi a hynny'n bell i'r flwyddyn nesaf. Cytunwyd felly y dylid gohirio'r Adolygiad, gyda threfniadau ariannu newydd ar gyfer Portffolio Celfyddydol Cymru a ddaw i rym o 1 Ebrill 2023 ymlaen.

Yn ymarferol, golyga hyn ddechrau'r broses tua diwedd 2021, gydag asesu a phenderfynu yn ystod 2022. Y nod fyddai cyhoeddi penderfyniadau yn hydref 2022, mewn pryd i drafod y cytundebau ariannu newydd ar gyfer 2023/24.

Soniwyd am bwysigrwydd cyfleu'n glir ein rheswm dros wneud hyn i'r sector. Byddai NC yn cyfathrebu hyn.

Derbyniodd NC tua 200 o argymhellion am sut i fynd i'r afael ag

<p>amrywiaeth. Bydd yn cynhyrchu dogfen ddrafft derfynol ar gyfer y sector. Wrth wraidd y gwaith mae'r contract diwylliannol.</p> <p>Tanlinellwyd pwysigrwydd ein blaenoriaethau a meithrin gallu, yn enwedig gyda sefydliadau nad ydynt yn y Portffolio ar hyn o bryd. Roedd y Cyngor yn ymwybodol o bosibiliadau Camau Creadigol a'r angen posibl i gynyddu cyllideb y rhaglen.</p> <p>Nododd NC ei bod yn debyg y caiff cyllidebau'r Loteri Genedlaethol eu hailfodelu i raddau i ariannu hyn ac ychwanegu at y Gronfa Adfer Ddiwylliannol newydd. Cyflwynna RN unrhyw gynigion i addasu cyllidebau'r Loteri Genedlaethol y cytunwyd arnynt o'r blaen i gyfarfod nesaf y Cyngor.</p>	<p>NC</p> <p>RN</p>
<p>10.2 Brecsit a'i oblygiadau Cyflwynodd EH adroddiad a amlinellai faterion rhyngwladol i'r sector oherwydd y coronafeirws a brecsit.</p> <p>Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn brysur yn ymateb i bapurau ymgynghorol a cheisiadau am dystiolaeth gan Bwyllgorau Senedd Cymru a Phrydain. Gyda bwriad Llywodraeth Prydain i dynnu'n ôl o raglen Ewrop Greadigol, roedd yn bwysig inni chwarae rhan flaenllaw wrth bwysio am raglen newydd i ddiwallu anghenion Cymru.</p> <p><u>Gŵyl 2022</u> Mae Llywodraeth Prydain wedi gofyn i Martin Green CBE (gynt yn Gyfarwyddwr Hull, Dinas Ddiwylliannol) ddatblygu cynlluniau i guradu, rheoli a hyrwyddo'r ŵyl ledled Prydain. Bydd Llywodraeth Prydain yn rhoi £120 miliwn at yr ŵyl.</p> <p>Ar gais DRh cytunwyd i wneud brecsit yn eitem sefydlog ar agenda'r Cyngor tan o leiaf 6 mis i'r flwyddyn newydd.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad a diolchwyd i EH am ei hadroddiad.</p>	<p>KB</p>
<p>10.3 Adroddiad Mapio'r Gymraeg Comisiynwyd yr adroddiad yn Nhachwedd 2019. Esboniodd ST mai nod yr ymchwil oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhoi darlun cynhwysfawr o weithgarwch celfyddydol Cymraeg yng Nghymru • nodi rhestr o bartneriaid posibl o ran cydweithio 	

- cynnig argymhellion i'w gweithredu

Roedd y drafft cyntaf ymhlith papurau'r Cyngor i'w drafod.

Trafodwyd yr adroddiad a'i argymhellion. Cymeradwywyd y cynigion i'w gweithredu o aros am weld gwaith manylach am sut i'w gweithredu.

Roedd TH o'r farn y dylai'r Cyngor wneud datganiad clir ar ei fwriadau ar gyfer y dyfodol a bod staff yn cael eu hyfforddi i ddatblygu'r cynllun gweithredu.

Awgrymodd hefyd y byddai o fudd codi ymwybyddiaeth o ddiwylliant y Gymraeg ymhlith ein staff a'r Portffolio. Roedd nifer o adnoddau ar-lein a allai helpu. Cefnogwyd ei awgrymiadau.

Roedd y Cyngor yn ymddiddori yn yr argymhelliad i gael Asiant Newid. Roedd yn meddwl y byddai'n bwysig diffinio'n ofalus fanylion a hyd y swydd.

Roedd gwahanol safbwyntiau am ba mor briodol fyddai gosod targed o gael 25% o seddi ar fyrddau'r Portffolio wedi'u llenwi gan siaradwyr Cymraeg. Roedd y Cyngor yn cefnogi'n llwyr gael siaradwyr Cymraeg priodol ar fyrddau'r sefydliadau. Ond roedd y Cyngor hefyd yn pryderu am y posibilrwydd o ganlyniadau anfwriadol – yn enwedig i fyrddau llai – o bennu canran mor uchel. Roedd aelodau'r Cyngor yn glir bod yn rhaid cefnogi'r angen i fynd i'r afael â gwahanol flaenoriaethau o ran cydraddoldeb drwy lywodraethu sefydliadol ond mae'n bwysig sicrhau cydbwysedd. Roedd sawl syniad am sut y gellid cyflawni hyn.

Bydd MWJ a ST yn ystyried y materion a drafftio cynllun i'w gyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref.

Nodwyd bod croesawiad twymgalon i gyflwyniad Dr Mererid Hopwood yng Ngŵyl y Gelli.

ST

11. Llywodraethu

11.1 Recriwtio'r Cyngor

Roedd PG yn drist o adrodd y byddai tymor MG, MWJ ac AM yn dod i ben yn Ebrill 2021.

Bydd y broses recriwtio, dan arweiniad Lywodraeth Cymru, yn dechrau'n fuan gyda'r nod o recriwtio chwe aelod newydd.

<p>Gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw syniadau am ymgeiswyr posibl at PG.</p> <p>Bydd PG yn rhoi gwybod i aelodau'r Cyngor am unrhyw gynnydd.</p>	
<p>11.2 Y Cyngor a'i bwyllgorau Fel rhan o'r adolygiad blynyddol arferol, ystyriwyd nifer o newidiadau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn trefnu ei fusnes drwy ei bwyllgorau.</p> <p>Penderfynwyd:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Nodi cynnwys y papur 2. Cymeradwyo adolygu'r Cod Ymarfer Gorau yn flynyddol 3. Cymeradwyo'r ychwanegiadau canlynol at y pwyllgorau: <ol style="list-style-type: none"> a. y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol ('y Grŵp Monitro Cydraddoldeb' gynt) b. y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch 4. Cymeradwyo'r cyfeiriad at y Bwrdd Rheoli 5. Cytuno bod Grŵp Monitro'r Gymraeg yn mynd yn bwyllgor <p>Teimlid y gallai fod angen diwygio teitl a swyddogaeth Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol yng ngoleuni'r penderfyniadau yma. Roedd yr aelodau yn awyddus i sicrhau bod strwythur y pwyllgorau'n cefnogi llywodraethu busnes y Cyngor yn effeithlon heb fynd yn rhy fiwrocraataidd. Gofynnwyd i'r uwch dîm arwain ystyried hyn a darparu dadansoddiad i'r Cyngor.</p>	<p>NC</p>
<p>12. Adroddiad Cynllun Gweithredol - chwarter 1 Nodwyd yr adroddiad.</p>	
<p>13. Dyddiad y cyfarfod nesaf Gwener 16 Hydref 2020 – drwy Sŵm</p>	

**Cyfarfod y Cyngor:
Gwener 4 Medi 2020**

Crynodeb o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau

Eitem	Gweithredu
6.2 Cyflwyno diweddariad o'r rhaglen Dysgu Creadigol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.	DH

10.1	Cyfathrebu penderfyniad y Cyngor am aildrefnu'r Adolygiad Buddsoddi i'r sector.	NC
10.1	Cyflwyno unrhyw gynigion i addasu cyllidebau'r Loteri Genedlaethol y cytunwyd arnynt o'r blaen i gyfarfod nesaf y Cyngor.	RN
10.2	Cynnwys breccit yn eitem sefydlog ar agenda'r Cyngor yn y dyfodol.	KB
10.3	Cyflwyno cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r adroddiad am fapio'r Gymraeg i gyfarfod nesaf y Cyngor.	ST
11.2	Cyflwyno dadansoddiad o reolaeth a gwaith ymarferol strwythur pwyllgorau'r Cyngor i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.	NC